© Colonel



Press release | 18.09.2017

# Amddiffyn hawliau democrataidd yng Nghatalwnia

## Datganiad i'r Wasg gan ASE EFA Jill Evans

Mae ASE Plaid Cymru **Jill Evans** wedi cyd-lofnodi cwestiwn i'r Comisiwn Ewropeaidd yn condemnio ymddygiad llywodraeth Sbaen wrth iddo geisio atal refferendwm annibyniaeth i Gatalwnia.

Daw hyn yn dilyn adroddiadau fod erlynydd cyffredinol Sbaen wedi bygwth 712 o Feiri yng Nghatalwnia a etholwyd yn ddemocrataidd gydag achosion llys os byddant yn cefnogi cynnal y refferendwm.

Mae Senedd Catalwnia wedi pasio deddf i alw refferendwm ar annibyniaeth o Sbaen i'w gynnal ar 1 Hydref eleni.

Bydd Jill Evans ASE yn rhan o'r ddirprwyaeth swyddogol fydd yn arsylwi'r refferendwm.

Dywed **Jill Evans ASE**:

*"Mae bygwth swyddogion etholedig gyda chael eu harestio am amddiffyn penderfyniad democrataidd i gynnal refferendwm yn warthus.*

*"Ymddengys fod llywodraeth Sbaen yn benderfynnol o amharu ar refferendwm democrataidd trwy fygythiad.*

*"Mae gan y llywodraeth ymrwymiadau fel aelod o'r UE i barchu penderfyniadau democrataidd a hawliau sylfaenol dinasyddion yr UE.*

*"Rydym yn gofyn i'r Comisiwn Ewropeaidd ystyried y materion hyn ar frys, yn enwedig y bygythiadau yn erbyn swyddogion etholedig."*

**Recommended**

News

© European Union 2021 - Source : EP



[Debriefing of the October II 2024 plenary session]

25.10.2024

Press release

Photo by Elinda Gjonomadhi on Unsplash



[EU must not bow down to far-right fear mongering & pop…]

23.10.2024

Press release



[Diana Riba MEP Calls for End to Outsourcing Migration …]

23.10.2024

Event



[Plenary press briefing]

22.10.2024

**Responsible MEPs**



Jill Evans

Member

**Please share**

- E-Mail